# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ**

**Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2018

Amser: 08.30 - 08.49

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Neil Hamilton AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Bydd Arweinydd y Tŷ yn ateb Cwestiynau'r Prif Weinidog ar ei ran heddiw yn ei absenoldeb.

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl y Ddadl Fer a chyn trafodion Cyfnod 3.

- Bydd egwyl o 10 munud cyn dechrau trafodion Cyfnod 3.

## 3.2 Papur i'w nodi: Canllawiau - Dadleuon ar y Cytundeb Ymadael â'r UE a'r Datganiad Gwleidyddol, ac ar y Gyllideb Ddrafft 2019-20

Nododd y Rheolwyr Busnes y papur.

## 3.3 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Gwnaeth y Llywydd y pwynt bod y Pwyllgor Cyllid wedi holi pam y mae'r ddadl ar adroddiad Holtham, 'Talu am Ofal Cymdeithasol', wedi'i threfnu ar gyfer y diwrnod cyn eu dadl ar adroddiad eu pwyllgor, 'Cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio', (8 a 9 Ionawr 2019, yn y drefn honno). Dywedodd Arweinydd y Tŷ na fyddent yn symud eu dadl, gan fod y ddadl ar adroddiad Holtham wedi cael ei chynllunio ers amser gan y llywodraeth.

## 3.4 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes y drefn y bydd busnes yn cael ei drafod ddydd Mercher nesaf, 12 Rhagfyr, fel a ganlyn. Caiff y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes ei ddiweddaru yn unol â hynny:

### Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)

### Busnes y Llywodraeth

- Dadl: Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol (60 munud)
- Dadl: Cyfnod 4 y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) (15 munud)

### Busnes y Cynulliad

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Andrew RT Davies (Canol De Cymru) (30 munud)

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

### Dydd Mercher 16 Ionawr 2019 –

- <u>Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Awtistiaeth (Cymru) (60 munud)</u>
- <u>Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)</u>
- <u>Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)</u>

### 3.5 Dadl Aelod Unigol: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

- Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl ar 12 Rhagfyr:

**NNDM6860**

**Jane Hutt**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi adroddiad Ysgol Fusnes Caerdydd, 'Y Cyflog Byw - Profiad Cyflogwyr'.

2. Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan 174 o gyflogwyr ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru i dalu'r cyflog byw go iawn i'w cyflogeion.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) nodi mesurau i gefnogi rhagor o gyflogwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i fabwysiadu'r cyflog byw go iawn a dod yn gyflogwyr cyflog byw go iawn achrededig; ac

b) Ystyried cryfhau'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi mewn perthynas â'r cyflog byw go iawn.

Y Cyflog Byw - Profiad Cyflogwyr

Y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Moesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

**Cefnogwyr:**

**Rhun ap Iorwerth**

**Dawn Bowden**

**Jayne Bryant**

**Hefin David**

**Mike Hedges**

**Helen Mary Jones**

**Julie Morgan**

**Rhianon Passmore**

**David Rees**

**Mick Antoniw**

**John Griffiths**

**Vikki Howells**

**Mark Isherwood**

**Jenny Rathbone**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gynnal y Ddadl Aelod Unigol nesaf yn y flwyddyn newydd.

**3.6 Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau: dethol cynnig ar gyfer dadl**

- Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl ar 12 Rhagfyr:

**NNDM6893**

**Jenny Rathbone**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer bil ar atal gwastraff ac ailgylchu.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) atal gwastraff drwy osod gofynion ailgylchu ar gynhyrchwyr bwyd a manwerthwyr mewn perthynas â deunydd pacio a gwastraff pecynnu; a

b) chyflwyno cyfrifoldebau estynedig o ran cynhyrchwyr, i sicrhau bod costau ailgylchu a rheoli gwastraff yn cael eu rhannu'n deg, a bod cynhyrchwyr yn cyfrannu at gost ariannol trin eu cynnyrch ar ddiwedd ei oes.

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drefnu'r ddadl nesaf ar Gynnig Deddfwriaethol Aelod ar gyfer y flwyddyn newydd.

- Gofynnodd Rheolwyr Busnes i'r Ysgrifenyddiaeth edrych ar sut y gall y broses gyflwyno ar gyfer Cynigion Deddfwriaethol yr Aelodau gynyddu nifer y cynigion a gyflwynir i'w dewis. Cododd Rheolwyr Busnes y posibilrwydd o gyhoeddi ymlaen llaw ddau ddyddiad y Dadleuon y tymor, a dechrau'r broses o gyflwyno ar ddechrau'r tymor, er mwyn cynyddu'r amser sydd ar gael i Aelodau ystyried a chyflwyno cynigion.

# 4 Busnes y Cynulliad

## 4.1 Gweithdrefnau ar gyfer Ymddeoliad ac Enwebiad Prif Weinidog

Nododd y Rheolwyr Busnes y papur.

# Unrhyw fater arall

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes y bydd hi'n cyhoeddi canlyniadau etholiad cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru ac yn cyhoeddi enwau'r 60 ymgeisydd llwyddiannus ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, a nododd y gefnogaeth a roddwyd gan Aelodau ym mhob un o'r pleidiau i hyrwyddo'r gwaith ar Senedd Ieuenctid Cymru.